Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 300 - 17 Mai 2007
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2007.

1. **Cynllun Cyfathrebu ac Ymgynghoriad S4C ar Sianel i Blant**
   Cyhoeddwyd yr Ymgynghoriad ar 14 Mai, ac y mae'r ymateb wedi bod yn ffafriol hyd yn hyn.

2. **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2006**
   Gofynnwyd i'r aelodau anfon unrhyw newidiadau i'w bywgraffiadau neu sylw ar y cynnwys at yr Ysgrifennydd erbyn 25 Mai.

3. **Cymeradwyo Datganiad Ariannol 2006**
   Cymeradwywyd y camau sydd wedi eu cymryd hyd yma.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**
   Nododd JWJ ei fod wedi bod yn bresennol yn rownd derfynol **Côr Cymru**. Roedd canmoliaeth uchel i'r Rhaglenni ac yr oedd ef a nifer fawr iawn o bobl wedi eu mwynhau yn fawr.

   Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer aelodau newydd i'r Awdurdod yn ystod yr wythnos a bydd y rhain yn parhau dydd Mercher 23 Mai yn Llundain.

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**
   Cyflwynodd IJ ei hadroddiad ysgrifenedig. Amlinellodd ei chyfarfod â Shaun Woodward a nododd ei gefnogaeth o ofod digidol S4C. Cafwyd adborth ei fod wedi cael budd o ddod i'r cyfarfod.

   Rhoddodd dystiolaeth gerbron Pwyllgor Dethol Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin ar 24 Ebrill ac yr oedd adwaith y Pwyllgor hynny i beth oedd gan S4C i'w ddweud yn gadarnhaol, gyda'r lefel o barch i S4C fel darlledwr yn uchel iawn.

   Nododd bod y gwe-ddarlledu ers 24ain o Ebrill yn ychwanegiad at y rhaglenni sydd ar gael ar y band-lydan.

   Nododd bod llwyddiant **Con Passionate** a'r ail-frandio yn dangos bod S4C yn cystadlu gyda'r goreuon.

   Cyflwynodd ddrafft o'r cynlluniau ar gyfer dathliadau pen-blwydd S4C yn 25ain mlwydd oed.

   Bydd gwaith ar derbynfa adeilad S4C yn Llanisien yn cychwyn ar 4 Mehefin ac yn gorffen erbyn diwedd Medi.

6. **Materion Eraill**
   Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:
   - Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
   - Adroddiad y Pwyllgor Cynnwys
   - Adroddiad Ymchwil
   - Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
   - Rhaglen Waith yr Awdurdod 2007
   - Tabl Digwyddiadau am 2007